



Gêm Geirfa: Llygryddion sy'n Peri Problem

Amser i gwblhau'r gweithgaredd 15 - 30 munud

Lleoliad

Dan do neu yn yr awyr agored

Cyd-destun

Mae'r gêm hon yn canolbwyntio ar roi cyflwyniad sylfaenol i ddysgwyr i'r pum llygrydd mwyaf cyffredin a all fynd i mewn i'n cyrsiau dŵr.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am yr aer, y tir, y dŵr, y bywyd gwyllt, y planhigion a'r pridd er mwyn gwella llesiant Cymru a chynnig dyfodol gwell i bawb.

Cwricwlwm Cymru

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- **Beth sy'n bwysig** - Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol er mwyn deall a rhagweld ffenomena.
- **Beth sy'n bwysig** - Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn o bethau byw, gyda'r naill yn dibynnu ar y llall i oroesi.

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- **Beth sy'n bwysig** - Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n cwmpas.

Amcanion

Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn bydd y dysgwyr yn gallu:

- Mynd ati'n hyderus i ddefnyddio geirfâu allweddol sy'n gysylltiedig â llygredd.
- Esbonio beth yw'r pum llygrydd mwyaf cyffredin a deall pam y maent yn niweidiol i'r amgylchedd naturiol.

Offer ac adnoddau

- **Cardiau adnoddau - Gêm Geirfa: Llygryddion sy'n Peri Problem**

Beth i'w wneud

Argymhellir y dylid cynnal y gweithgaredd hwn fel cyflwyniad i weithgareddau eraill sy'n canolbwyntio ar lygredd.

Ceir pum set o gardiau. Mae pob set yn cynnwys:

- Cerdyn llun
- Cerdyn diffiniad
- Cerdyn 'Beth yw e?'
- Cerdyn 'Ffynhonnell y llygredd'
- Cerdyn 'Pryd mae'n peri problem?'



Gellir addasu'r gweithgaredd a'i gynnal mewn gwahanol ffyrdd, yn cynnwys y canlynol:

- Bydd grwpiau o ddysgwyr yn cael set lawn o gardiau adnoddau i weithio trwyddynt a'u paru'n gywir. Yna, byddant yn cymharu eu setiau cardiau wrth i arweinydd y grŵp ddatgelu'r atebion cywir.
- Er mwyn cael gêm fwy egniol, rhowch gerdyn i bob myfyriwr. Yna, rhaid i'r dysgwyr fynd o gwmpas i edrych ar gardiau'r gweddill, a'u trafod, er mwyn chwilio am ddysgwyr a chanddynt gardiau sy'n cyfateb i'w cerdyn nhw. Ar ôl i'r dysgwyr ddod o hyd i ddysgwyr eraill sydd â chardiau cyfatebol, rhaid iddynt ffurfio grŵp yn cynnwys un dysgwr â cherdyn llun, cerdyn diffiniad, cerdyn 'beth yw e?', cerdyn 'ffynhonnell y llygredd' a cherdyn 'pryd mae'n peri problem?'.
- Os bydd digon o le, gellir cynnal y gweithgaredd ar ffurf ras gyfnewid. Gwasgarwch y cardiau rywsut-rywsut ar y llawr. Gan weithio mewn grwpiau, gall un dysgwr ar y tro o bob grŵp redeg i'r canol i gasglu cerdyn, cyn dychwelyd at ei grŵp i drafod a pharu ei gerdyn. Gellir cynnal y gweithgaredd hwn yn y ffyrdd a ganlyn:
 - Pob grŵp yn chwilio am gardiau ar gyfer un math o lygredd, gan fynd ati i'w paru.
 - Pob grŵp yn chwilio am y set lawn o gardiau ar gyfer pum math o lygredd, gan fynd ati i'w paru.

Pa bynnag ffordd a ddewisir, neilltuwch amser ar y diwedd i'r grwpiau gyflwyno eu cardiau ac esbonio pam y gwnaethant eu paru felly.

Cwestiynau allweddol posibl

- Beth mae'r gair hwn yn ei olygu? Dewiswch gerdyn diffiniad a gofynnwch i'ch dysgwyr esbonio beth ydyw a pham y mae'n peri problem.
- Pa fesurau rheoli y dylid eu defnyddio i rwystro a chyfyngu ar y niwed a gaiff ei achosi gan y pum llygrydd cyffredin yma?
- A allwch feddwl am sylweddau llygru eraill a all fynd i mewn i'n cyrsiau dŵr?
- A oes yna gamau y gallwch chi fel unigolyn eu cymryd i leihau'r risg y bydd llygryddion o'r fath yn mynd i mewn i'n cyrsiau dŵr?

Addasu'r gweithgaredd ar gyfer anghenion/galluoedd gwahanol

Llai abl

- Defnyddiwch y cardiau llun a'r cardiau diffiniad yn unig.
- Defnyddiwch y cardiau llun, diffiniad, 'beth yw e?' a 'ffynhonnell y llygredd' yn unig.
- Cyflwynwch fersiwn lle ceir mwy o arweiniad gan oedolyn.
- Cyflwynwch setiau newydd o gardiau yn raddol fel y bydd modd dysgu'r eirfa newydd gam wrth gam.

Mwy abl

- Gellir rhoi'r cardiau gair a llun i'r dysgwyr, ynghyd â chardiau plaen y gallant eu defnyddio i ysgrifennu eu geiriau eu hunain ar y cardiau 'beth yw e?' a 'pryd mae'n peri problem?'.



Gweithgaredd dilynol/estyniad

- Defnyddiwch y rhyngwyd i ymchwilio i'r geiriau a ddefnyddiwyd ac i chwilio am luniau eraill i wneud gwahanol fersiynau o'r gêm. A oes modd defnyddio unrhyw eiriau ychwanegol? A oes modd creu set newydd o gardiau y gall eraill eu paru?
- Gofynnwch i'ch dysgwyr greu poster i godi ymwybyddiaeth o lygryddion sy'n peri problem a'r niwed y maent yn ei achosi.
- Gofynnwch i'ch dysgwyr ddychmygu bod damwain llygredd wedi digwydd ym mhwl eich lleoliad neu mewn llyn neu gwrs dŵr lleol. Rhwch rywfaint o ffeithiau allweddol ffug iddynt e.e. pryd/ble/beth ac ati.

Ewch ati i gynnal cyfarfod cyngor lleol i benderfynu ar y camau gorau i'w cymryd er mwyn sicrhau na fydd damwain o'r fath yn digwydd eto. Gan weithio mewn paru neu fesul un, gofynnwch i bob dysgwr ysgwyddo rôl a pharatoi dadleuon ar gyfer y cyfarfod e.e.:

- Pâr o bysgotwyr lleol sy'n mwynhau pysgota yn y cwrs dŵr.
- Pâr o Swyddogion Amgylchedd o Cyfoeth Naturiol Cymru sydd wedi ymchwilio i'r ddamwain llygredd.
- Aelod pryderus o'r cyhoedd.
- Gofynnwch i'ch dysgwyr ddychmygu eu bod yn ohebydd ar gyfer y papur newydd lleol. Gofynnwch iddynt ysgrifennu prif erthygl ar gyfer y papur newydd yn sôn am y ddamwain llygredd.

Gweithgareddau eraill yn ymwneud â llygredd

- Cynllun Gweithgaredd - Llygryddion sy'n Peri Problem - mae'n esbonio sut i wneud samplau ffug o lygryddion sy'n peri problem. A all eich dysgwyr roi'r llygryddion hyn yn eu trefn, o'r lleiaf i'r mwyaf niweidiol?

Gwybodaeth ychwanegol

- **Nodyn gwybodaeth - Ocsigen toddedig mewn dŵr** - mae ein nodyn gwybodaeth yn esbonio'r wyddoniaeth sydd wrth wraidd y modd y caiff lefelau ocsigen tawdd mewn dŵr eu lleihau pan fydd llygryddion sy'n peri problem yn mynd i mewn i gyrsiau dŵr.

Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk os gwelwch yn dda, neu ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000